

# Gwendid cynyddol, di-boen – Ai Clefyd Niwronau Motor yw hyn?

## 1. A oes gan y claf un neu ragor o'r symptomau hyn?

### Nodweddion bwlbaidd

- Dysarthria
- Lleferydd aneglur neu dawel, yn aml pan fydd wedi blino
- Dysffagia
  - Hylifau a/neu solidau
  - Llawer iawn o boer
  - Teimlad o dagu, yn arbennig wrth orwedd ar wastad
- Ffsgelliadau – tafod

### Nodweddion breichiau a choesau

- Gwendid canolog
- Cwmpo/baglu – oherwydd troed llipa
- Colli dehurwydd
- Cyhyrau'n nychu
- Cyhyrau'n plycio / ffsgelliadau
- Crampiau
- Dim nodweddion synhwyrol

### Nodweddion anadlol

- Symptomau anadlol y mae'n anodd eu hesbonio
- Byr ei wynt wrth wneud ymdrech
- Syrthni eithafol yn ystod y dydd
- Blinder
- Cur pen yn y bore
- Orthopnoea

### Nodweddion gwybyddol (anghyffredin)

- Newid mewn ymddygiad
- Ansadrwydd emosiynol (heb fod yn gysylltiedig â dementia)
- Dementia blaen-dalcennol

## 2. Ydy pethau'n datblygu'n raddol?

### Ffactorau ategol

- Nodweddion anghymesurol
- Oedran – gall symptomau MND ddod i'r amlwg o unrhyw oed
- Hanes cadarnhaol o MND neu glefyd niwroddirywiol arall yn y teulu

### Ffactorau NAD ydynt yn ategu diagnosis MND

- Cysylltiad â'r bledren / coluddyn
- Symptomau synhwyraidd amlwg
- Gweld dau o bob dim / Ptosis
- Symptomau gwella

### Os yw 1 a 2 yn wir, cwestiynwch MND ac atgyfeiriwch y claf at Niwroleg

Os ydych chi'n credu y gall fod yn MND, nodwch hynny'n amlwg yn y llythyr atgyfeirio. Y pethau cyffredin sy'n achosi oedi yw atgyfeirio i ddechrau at wasanaethau Clustiau, Trwyn a Gwddf (ENT) neu wasanaethau Orthopedig

### Adnoddau ychwanegol:

Mae gan Gymdeithas MND Adnoddau a chyhoeddiadau i'w llwytho i lawr yn [www.mndassociation.org/gp](http://www.mndassociation.org/gp)

## Nodweddion bwlbaidd

### Mae 25% o gleifion yn dangos symptomau bwlbaidd

- Dysarthria
  - Lleferydd tawel, cryg neu wedi newid
  - Lleferydd aneglur, yn aml pan fydd wedi blino
- Dysffagia – hylifau i ddechrau ac yna solidau yn amlach na pheidio. Gall fod yn deimlad o rywbeth yn cael ei ddal yn y gwddf neu dagu wrth yfed yn gyflym.
- Llawer iawn o boer
- Teimlad o dagu wrth orwedd ar wastad
- Peswch gwan – nad yw'r claf yn sylwi arno'n aml iawn

Dysarthria cynyddol, di-boen – ystyriwch atgyfeirio at wasanaeth niwrolegol yn hytrach nag ENT

## Nodweddion breichiau a choesau

### Mae gan 70% o gleifion symptomau'n ymwneud â breichiau a choesau

- Gwendid canolog – teimlad annifyr ond di-boen
- Gwendid distal
  - Cwmpo/baglu – oherwydd troed llipa
  - Colli deheurwydd, e.e. problemau gyda sipiau neu fotymau
- Cyhyrau'n nychu – dwylo ac ysgwyddau. Anghymesurol fel rheol
- Cyhyrau'n plicio / ffasgelliadau
- Crampiau

## Nodweddion anadlol

### Mae problemau anadlol yn nodwedd sy'n dod i'r amlwg yn hwyr ar gyfer MND ac mae'n nodwedd anghyffredin. Mae cleifion yn dangos nodweddion methiant anadlol niwrogyhyrol

- Byr ei wynt wrth wneud ymdrech
- Syrthni eithafol yn ystod y dydd
- Blinder
- Cur pen yn y bore. Mae cleifion yn aml yn disgrifio teimlo'n 'ddryslyd' yn y bore, yn araf deg yn bwrw iddi, neu fel petai ganddynt ben mawr
- Cwsg sy'n flinderus
- Orthopnoea
- Haint ar y frest yn aml, nad oes modd ei hegluro
- Peswch a sniffiadau gwan
- Anesmwythder gyda'r nos a/neu chwysu

Ystyriwch MND os nad yw archwiliadau am ddiffyg anadl yn ategu achos ysgyfeiniol neu gardiaidd.

## Nodweddion gwybyddol

### Mae dementia amlwg, fel symptom, yn anghyffredin. Mae camweithrediad gwybyddol yn cael ei gydnabod fwyfwy, ac mae'r dystiolaeth yn cynnwys:

- Newid mewn ymddygiad fel difaterwch neu ddiffyg cymhelliant
- Cael anawsterau gyda thasgau cymhleth
- Methu canolbwyntio
- Ansadrwydd emosiynol (nad yw'n gysylltiedig â dementia).

Holwch yn benodol am hanes penodol o'r nodweddion hyn

### Y grŵp datblygu ar gyfer yr adnodd hwn:

RCGP (L Davies, R Pizzaro-Duhart, I Rafi) Cymdeithas MND (J Bedford, H Fairfield)

Niwroleg (P Callagher, C McDermott, K Morrison, R Orrell, A Radunovic, S Weatherby, A Wills) Meddygaeth Liniarol (I Baker)